



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Tŷ Hendy

**Heol y Parc
Hendy
Abertawe
SA4 0XX**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/12/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Tŷ Hendy

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Consensus Support Services Limited
Lleodd cofrestredig	17
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	12 Mai 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Diben yr arolygiad â phwyslais penodol hwn yw adolygu'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth agored mewn perthynas â'r angen i'r darparwr gwblhau hysbysiadau Rheoliad 60. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y darparwr yn cydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau ac rydym wedi dod â'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i ben.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n eu hannog i fod mor iach a gweithgar â phosibl. Maent yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n brofiadol ac yn eu hadnabod yn dda. Mae parch mawr tuag at y rheolwyr ac maent yn datblygu diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn mwynhau mynd i siopa ac i fwytai a chlybiau cymdeithasol lleol, yn ogystal â gwirfoddoli ac ymweld â ffrindiau a theulu. Mae'r gweithwyr cymorth yn amyneddgar ac yn deall anghenion unigol y bobl a'r ffordd orau o'u cefnogi. Mae cyfathrebu â'r bobl mewn modd unigol ac effeithiol yn eu helpu i ddeall yr hyn sydd ar gael er mwyn iddynt gyflawni eu nodau. Caiff y bobl eu parchu ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn hamddenol.

Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau am y cymorth y maent yn ei gael. Ystyrir anghenion penodol y bobl gan fod y darparwr yn eu hasesu cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Caiff yr unigolion, eu cynrychiolwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu cynlluniau personol.

Mae gan y bobl lais am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y rheolwr gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl ac mae'r tîm o staff yn ei barchu. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff AGC ei hysbysu'n brydlon am unrhyw ddigwyddiadau yn y gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael. Mae'r staff yn amyneddgar ac yn ddeallgar wrth ryngweithio â'r bobl. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"I'm looking forward to Christmas and it's brilliant here but it's brilliant all year around and they (staff) are brilliant"*. Mae'r gweithwyr cymorth brwd yn deall y bobl ac yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod ac i ddeall eu hanghenion cyfathrebu penodol. Dywedodd un o'r gweithwyr wrthym *"I like the different personalities and finding out what makes them laugh"*.

Cyn i'r bobl symud i Dŷ Hendy, mae'r rheolwr yn eu hasesu i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion a'u helpu i gyflawni eu nodau. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i ddatblygu cynllun pontio er mwyn cefnogi'r broses symud a helpu'r bobl i setlo. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, mae'r rheolwyr a'r staff yn gweithio gyda'r bobl i greu cynllun unigol ac asesiadau risg.

Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ei hoff bethau a'i gas bethau, a'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu ag ef. Mae'r asesiadau risg yn gynhwysfawr ac yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel a'u hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r gweithwyr allweddol yn adolygu'r cynlluniau gyda'r bobl a'u teuluoedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol.

Yr Amgylchedd

Nid oedd yr amgylchedd yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol hwn. Fodd bynnag, mae'r bobl yn gyfforddus ac yn symud o gwmpas y gwasanaeth yn hawdd. Maent yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni addurno ac mae'r ystafelloedd unigol yn bersonol iawn.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom nodi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth gan nad oedd hysbysiadau'n cael eu cyflwyno i AGC mewn modd amserol yn gyson. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff yr hysbysiadau hyn eu cyflwyno'n briodol ac rydym wedi dod â'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i ben.

Mae trefniadau da ar waith gan y darparwr i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o drafodaethau â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn fanwl ac yn cynnwys adborth gan y bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau mewnol yn galluogi'r Unigolyn Cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth ac i bennu camau gweithredu clir o ran sut i wella ansawdd.

Mae gan y tîm o staff barch mawr tuag at y rheolwr, ac maent yn gwerthfawrogi ei arweinyddiaeth ac yn ei ddisgrifio'n berson hoffus, cefnogol a hawdd mynd ato. Dywedodd un o'r gweithiwr cymorth wrthym *"[Manager] is a brilliant manager, on the ball and communicates well with the team"*.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
60	Ni chaiff hysbysiadau eu cwblhau mewn modd amserol bob amser.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
15	Ni wnaeth y darparwr baratoi cynllun personol ar gyfer person a dderbyniwyd i'r gwasanaeth o fewn 24 awr i ddechrau gofal.	Cyflawnwyd

Dyddiad Cyhoeddi 06/01/2023